Polisi Disgyblion Coll

Enw'r Ganolfan: **Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin**	**Rhif y Ganolfan:** **68220**
Adolygwyd y Polisi gan y Corff Llywodraethol ar 18/3/2021	
Dyddiad adolygu'r polisi: **Mawrth 2022**	

POLISI DISGYBLION COLL

GWEITHREFN DISGYBLION

Pob tiwtor dosbarth i gwblhau cofrestru yn gywir ac amserol yn y sesiwn gofrestru am 9:00yb (uchafswm o 10 munud) CADWCH y gofrestr.
Os oes gwasanaeth, ac mae'r disgyblion yn hwyr, mae'n rhaid iddynt fynd i dderbynfa'r ysgol i gofrestru yn hwyr.

GWERSI

Pob athro pwnc i gofrestru disgyblion ar ddechrau gwersi gan ddefnyddio'r codau cywir. Gwnewch yn siwr eich bod yn cymryd y gofrestr yn y 10 munud cyntaf. Os nad yw disgybl yn bresennol yn eich gwers ac nad oes côd ar ei gyfer, cysylltwch gyda'r swyddfa.

Beth sy'n digwydd wedyn?

- Pan fydd y swyddfa yn cael yr alwad ffôn i nodi nad yw disgybl yn y wers bydd y disgybl yn cael galwad ar y tanoi yn syth.
- Caniateir uchafswm o 10 munud i ddisgyblion adrodd i'r dderbynfa ac i'r staff sydd ar gael i chwilio ardaloedd allweddol.
- Os na fydd disgyblion yn adrodd i'r dderbynfa, neu os nad ydynt wedi eu lleoli, bydd aelod o'r UDA yn:
  1. Ffonio rhieni / gwarcheidwaid – gadael neges os nad oes ateb
  2. Rhybuddio heddlu
  3. Rhoi gwybod i bob asiantaeth berthnasol, e.e. gweithiwr cymdeithasol.

Pwy all helpu yn ystod gwersi?

- Swyddog Ymgysylltu a Lles
- Staff y swyddfa
- UDA
- Penaethiaid blwyddyn
- Athrawon sydd ar gael

Fodd bynnag

Cyfrifoldeb pawb yw sicrhau cofrestri presenoldeb yn cael eu cwblhau'n brydlon ac yn gywir adeg cofrestru a phob gwers. Oni bai bod hyn wedi'i wneud, yna gall yr holl gamau dilynol fod yn seiliedig ar wybodaeth anghywir a gallai achosi risg diogelu difrifol.

PRESENOLDEB
mewn gwersi
1


Mae presenoldeb ymhob gwers yn holl bwysig.

Presenoldeb mewn gwersi

Os ydych wedi cofrestru yn y bore, a ddim yn bresennol mewn gwers, yna bydd yr athro pwnc yn cysylltu gyda'r swyddfa o fewn deg munud cyntaf y wers.



3

Presenoldeb mewn gwersi

Os na fyddwch wedi cyrraedd y wers erbyn hynny, byddwch yn cael eich galw ar y tanoi i fynd i'r dderbynfa.



4

Presenoldeb mewn gwersi

Bydd yr ysgol yn ffonio eich rhieni os na fyddwch wedi cyrraedd y Dderbynfa o fewn deg munud ac mewn rhai achosion byddwn yn ffonio'r heddlu.



Presenoldeb mewn gwersi

Os oes achos gyda chi i beidio bod yn y wers, e.e. gwers offerynnol, apwyntiad o fewn yr ysgol, yna mae'n HOLL bwysig eich bod yn mynd i weld eich athro pwnc cyn hynny



Presenoldeb mewn gwersi

RHAID gofyn caniatad eich athro pwnc CYN mynd at y nyrs. RHAID cael caniatad y nyrs cyn eich bod yn medru mynd adref oherwydd salwch

7

Presenoldeb mewn gwersi

Os oes angen i chi adael safle'r ysgol yn ystod y dydd e.e. apwyntiad meddygol, yna rhaid i chi ddangos llythyr gan eich rhiant i'r dderbynfa a rhaid iddo gael ei arwyddo

8

TEIMLO'N BRYDERUS? TEIMLO'N ISEL?
• Mae cefnogaeth ar eich cyfer – nyrs ysgol, mentoriaid y chweched, tiwtoriaid dosbarth, pennaeth blwyddyn, PC Cath, cwnselydd, nyrs iechyd.
9


Cofiwch am eich swyddogion amddiffyn plant – maent yno i wrando
Dr Llinos Jones
Mr Euryn Madoc-Jones
Mrs Rhian Carruthers
Mr Steffan Davies
Mrs Eirlys Thomas
10